# FRANCIS, EDMUND (1768 - 1831), gweinidog gyda'r Bedyddwyr Albanaidd

**Enw:** Edmund Francis
**Dyddiad geni:** 1768
**Dyddiad marw:** 1831
**Rhiant:** Lydia Francis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr Albanaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

G r o Fôn, gellid meddwl, oblegid bedyddiwyd ei fam, Lydia Francis, yn Amlwch, ac yno hefyd (8 Hydref 1786) y bedyddiwyd yntau. Cyn 1790 yr oedd wedi dechrau pregethu, ac ar 1 Rhagfyr 1795 urddwyd ef yn gynorthwywr i Christmas Evans, a oedd ar y pryd yn coleddu Sandemaniaeth. Glynodd Edmund Francis wrth y golygiadau hynny weddill ei oes. Symudodd i Gaernarfon yn 1799, yn glerc i Richard Roberts, masnachwr mewn llechi a pherchennog chwarel y Cilgwyn, yntau'n Fedyddiwr Albanaidd. Ar farwolaeth Roberts (1815) agorodd Francis fusnes d a blawd, ac yr oedd hefyd yn gweithredu dros waith copr Drws-y-coed. Yn 1801, neu'n fuan wedyn, yr oedd wedi sefydlu eglwysi i'r Bedyddwyr Albanaidd yng Nghaernarfon a Llanllyfni, ac yn fugail arnynt. Yr oedd yn llenor da, ac yn gyfaill i ' Robert ap Gwilym Ddu '; canodd hwnnw englynion coffa iddo. Francis a gwplaodd y gwaith o ddwyn allan emyniadur J. R. Jones o Ramoth; ac yn 1829 cyhoeddodd gyfieithiadau o dri o weithiau Archibald McLean. Bu farw yn Rhagfyr 1831 - ar y pumed, meddai carreg ei fedd yn Llanllyfni, ar yr wythfed yn ôl llyfr eglwys Ramoth - yn 63 oed. Daeth yres iddo'n wraig i'r hanesydd Alfred Neobard Palmer.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, iii, 283-5, 359

J. D. Davies yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1940, 32-6

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732920

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu